

Arweinwyr Ysgol

Arolwg Cenedlaethol Gweithlu Addysg 2021

Dadansoddiad o sylwadau testun agored



1. Baich gwaith

Themâu cyffredinol o gwestiwn testun agored awgrymiadau i wneud gwaith yn fwy hylaw

- darparu amser ychwanegol ar gyfer cynllunio, paratoi ac asesu (CPA)
- llai o waith papur a biwrocratiaeth
- cynyddu'r gyllideb er mwyn i uwch dîm arwain mwy o faint rannu cyfrifoldebau
- cyflogi mwy o staff

Cyfanswm nifer yr ymatebion: 758

Cyfanswm nifer yr ymatebion testun agored: 302

Mewn ymateb i:

4: I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno eich bod yn gallu rheoli eich baich gwaith presennol yn effeithiol o fewn eich oriau gwaith dan gontract? (dewiswch un) (pan ddewiswyd naill ai anghytuno neu anghytuno'n gryf, gofynnwyd y cwestiwn testun agored "A oes gennych awgrymiadau ymarferol ar y newidiadau a fyddai'n helpu i wneud eich baich gwaith yn fwy hylaw?"

Dadansoddiad o sylwadau ynghylch sut i wneud baich gwaith yn fwy hylaw:

1.1. Darparu amser ychwanegol ar gyfer cynllunio, paratoi ac asesu (CPA) (121 o sylwadau)

- Teimlai arweinwyr ysgol y dylai mwy o amser CPA gael ei neilltuo. Dylid gwneud hyn trwy gynyddu cyllidebau ysgolion.

Enghreifftiau

Cynyddu cyllideb yr ysgol i ganiatáu mwy o amser CPA i gydweithwyr wrth iddynt addysgu'r 45 awr y pythefnos yn llawn. Mae angen mwy o amser arnynt i gydweithredu ar ddatblygu ymarferol ar y cyd, myfyrio ar addysgeg ac ystyried arfer gorau.

Amser CPA hirach.

Neilltuo amser CPA ychwanegol e.e. amser neilltuedig ar gyfer dysgu proffesiynol.

Nid yw'n bosibl rheoli'r baich gwaith presennol o fewn y diwrnodau gwaith. Mae'r paratoi ar gyfer pob diwrnod (y noson gynt) yn cymryd sawl awr, gwneir y cynllunio dros y penwythnos yn bennaf gan fod tasgau gweinyddol yn cael eu gwneud gan amlaf yn ystod amser cynllunio. Rydym wedi lleihau ein hamser marcio yn ddyddiol, felly nid oes angen i ni fynd â marcio gartref fel arfer, ond nid dyma'r sefyllfa bob amser.

1.2. Llai o waith papur a biwrocratiaeth (116 o sylwadau)

- Mae arweinwyr yn gofyn am lai o waith papur. Yn enwedig gan fod arweinwyr nad ydynt yn addysgu wedi bod yn cael mwy a mwy o waith papur.

Enghreifftiau

Mae penaethiaid sydd ag ymrwymiad addysgu'n ei chael hi'n anodd ymdopi, oherwydd bod ganddynt yr un gofynion gwaith papur/gweinyddu â Phenaethiaid sydd ddim yn addysgu.

Llai o ailadrodd gan yr ALI a'r consortiwm. Llai o fiwrocratiaeth.

Dilëwch faint o waith papur y mae ei angen i fodloni partneriaid gwella a chonsortia rhanbarthol, ynghyd â'r hyn y mae'r AAL yn gofyn amdano.

Gwaith papur – mae'r ysgol wedi lleihau gwaith papur i athrawon ond, a minnau'n Ddirprwy nad yw'n addysgu, mae'r gwaith papur yn enwedig ar gyfer plant agored i niwed yn mynd yn waith papur er mwyn gwaith papur!

Llai o waith papur – atebolrwydd.

1.3. Cynyddu'r gyllideb er mwyn i uwch dîm arwain mwy o faint rannu cyfrifoldebau (34 o sylwadau)

- Llawer o sylwadau'n datgan o blaid cyllideb ysgol briodol ar gyfer arweinyddiaeth. Hefyd, cyllideb fwy i'r ysgol yn gyffredinol, a fydd yn rhyddhau amser yr uwch arweinwyr.

Enghreifftiau

Cyllid i staff gyflawni rhai o'r rolau a gyflawnais i yn yr ysgol ac i gyflogi rheolwr busnes i gyflawni rhai o'm rolau hefyd.

Cynyddu'r gyllideb er mwyn i uwch dîm arwain mwy o faint rannu cyfrifoldebau.

Cyllido ysgolion er mwyn caniatáu i bob athro gael mwy o amser cyswllt, yna bydd staff addysgu ac arweinwyr canol yn fwy effeithiol, gan ganiatáu i uwch arweinwyr fod yn fwy effeithiol hefyd.

1.4. Cyflogi mwy o staff (19 o sylwadau)

- Mae arweinwyr yn gofyn am fwy o staff addysgu a, hefyd, staff i helpu gyda thasgau gweinyddol.

Enghreifftiau

Mwy o staff. Rhowch y gorau i ostwng cyllidebau ysgolion.

Mwy o staff i ddirprwyo tasgau. Cyllid ar gyfer staff.

Staff gweinyddol i gefnogi prosesau ADY.

Cael rheolwr safle a rheolwr cyllid.

Themâu cyffredinol o'r cwestiwn testun agored pam mae'r baich gwaith wedi cynyddu oherwydd dysgu cyfunol.

Rhesymau gwaith ychwanegol

- cymorth i eraill – staff, a chysylltiadau gan rieni/gwarcheidwaid;
- heriau cyflwyno dysgu ar-lein/cyfunol a datblygu adnoddau.

- gofynion gweinyddu a / neu waith papur;
- asesu a marcio;
- lefelau a materion staffio;
- hunanhyfforddiant, dysgu wrth y gwaith;

Awgrymiadau ymarferol ar gyfer gwella:

Oherwydd dim ond nifer bach o awgrymiadau ymarferol ar gyfer gwella a ddarparwyd o fewn y cwestiwn hwn, ni fu'n bosibl sefydlu themâu amlwg. O'r awgrymiadau a ddarparwyd, roedd y sylwadau'n cynnwys:

- hyfforddiant pellach i staff a myfyrwyr ar blatfformau ar-lein;
- staff ychwanegol ar gyfer tasgau gweinyddol;
- mwy o atebolrwydd i deuluoedd ymgysylltu â dysgu gartref;
- lleihau'r pwysau a'r disgwyliadau yn ystod pandemig COVID-19.

Cyfanswm nifer yr ymatebion: 758

Cyfanswm nifer yr ymatebion testun agored: 384

Mewn ymateb i:

7. Sut mae darparu dysgu cyfunol / dysgu o bell yn ystod pandemig Covid-19 wedi effeithio ar eich baich gwaith? Os yw "wedi cynyddu ychydig" neu "wedi cynyddu'n sylweddol", gofynnwyd y cwestiwn testun agored canlynol "Os yw eich baich gwaith wedi cynyddu ychydig neu'n sylweddol, esboniwch beth fu'r gwaith ychwanegol ac unrhyw awgrymiadau ymarferol ar sut y gellid gwella hyn"

Dadansoddiad o sylwadau ynghylch pam mae baich gwaith wedi cynyddu:

1.5. Cymorth i eraill – staff, a chysylltiadau gan rieni/gwarcheidwaid (140 o sylwadau)

- Mae ymateb i ymholiadau a phryderon rhieni wedi cynyddu ac ni fyddid yn cyfathrebu fel arfer trwy negeseuon e-bost.

Enghreifftiau

Byddai'r amser mae'n ei gymryd i lunio cynllun gwersi hwylus i rieni, gyda'r holl wahaniaethu perthnasol ar gyfer un diwrnod, yn cymryd hirach na chynllun wythnos arferol pan nad ydym mewn cyfnod clo. Yna, monitro, marcio ac ymateb i negeseuon e-bost rhieni y tu allan i oriau fel arfer, gan fod y diwrnod yn cael ei dreulio'n addysgu plant gweithwyr allweddol yn ein hwb.

Mae'r cyfan wedi'i wneud yn bwrpasol i ddarparu ar gyfer amrywiaeth plant a theuluoedd.

Cefnogi teuluoedd a chymhlethdodau hynny. Cefnogi staff trwy'r heriau a wynebont.

Datblygu polisiau i rieni, disgyblion ac athrawon.

1.6. Heriau cyflwyno dysgu ar-lein/cyfunol a datblygu adnoddau (113 o sylwadau)

- Mae llawer wedi datgan fod cyflwyno dysgu cyfunol yn cymryd cymaint hirach. Mae'r cynllunio a'r paratoi ar gyfer dosbarthiadau'n cymryd mwy o amser, sef y brif broblem.

Enghreifftiau

Sicrhau bod technoleg briodol ar waith a bod staff yn gallu'i defnyddio. Rhoi hyfforddiant i staff ar adnoddau ac addysgeg ar gyfer dysgu ar-lein.

Mae'r cynllunio a'r paratoi ar gyfer dysgu cyfunol yn cymryd cymaint hirach nag ar gyfer yr ystafell ddosbarth, yn enwedig os yw eich pwnc wedi'i seilio'n draddodiadol ar bapur, sy'n golygu'ch bod wedi gorfod sganio neu

ail-greu’ch holl adnoddau. Hefyd, mae’n peri bod cyswllt syml â myfyrwyr a staff yn anos o lawer, gan na allwch ‘alw heibio’ i siarad â nhw neu eu gweld wrth iddynt gerdded heibio.

1.7. Gofynion gweinyddu a / neu waith papur (48 o sylwadau)

- Sylwadau arweinwyr ynghylch gormod o dasgau gweinyddol a rhai’n awgrymu cyllid ar gyfer cynorthwydd gweinyddol. Rhai sylwadau’n datgan llai o waith papur, am ei fod wedi cynyddu’n sylweddol yn ystod y pandemig. Mae sylwadau’n crybwyll mwy o dasgau gweinyddol fel asesiadau risg ar gyfer COVID-19.

Enghreifftiau

Cyllid ychwanegol fel y gall Penaethiaid gael eu cynorthwydd gweinyddol eu hunain – pa faint bynnag yw eu hysgol.

Rwy’n bennaeth a byddai cynorthwydd personol yn lleihau faint o waith gweinyddol y mae’n rhaid i mi ei gwblhau.

Llai o dasgau gweinyddol, llai o ddogfennau atebolrwydd, gan fod rhai ohonynt yn ailadroddus e.e. estyn a her a’r awdurdod lleol.

Mae’r gwaith papur yn y pandemig presennol wedi cynyddu’n sylweddol, yn enwedig o ran iechyd a diogelwch, asesiadau risg ac ati.

Asesiadau risg a gweinyddu ychwanegol e.e. gweinyddu ynghylch profi mewn ysgolion, asesiadau risg unigol, asesiadau risg covid.

1.8. Asesu a marcio (48 o sylwadau)

- Mae llawer o sylwadau'n sôn am fwy o amser ac amser yn gysylltiedig ag asesiadau.

Enghreifftiau

Mae paratoi a rhoi adborth yn cymryd mwy o amser o lawer nag addysgu wyneb yn wyneb. Mae angen trefnu cyfarfodydd, yn hytrach na chael sgysiau sydyn yn y coridor i ddatrys problemau.

Mwy o gynllunio ac adborth.

Marcio gwaith disgyblion a rhoi adborth.

1.9. Lefelau a materion staffio (19 o sylwadau)

- Bu’n rhaid i arweinwyr ysgol wneud mwy o hyfforddiant a chyflenwi oherwydd absenoldebau staff, sy’n cynyddu’u baich gwaith.

Enghreifftiau

Fel arweinydd ysgol, bu’n rhaid i mi ad-drefnu staff a sut maen nhw’n gweithio.

Cyflenwi oherwydd absenoldebau staff.

Roedd prinder staff ers mis Medi wedi arwain at angen cyflenwi nifer cynyddol o ddosbarthiadau. Rydym wedi bod yn gofalu am y cyflenwi ymhlith y tîm arwain er mwyn osgoi defnyddio staff cyflenwi, lle bynnag y bo’n bosibl.

Nid oedd gan staff ddigon o sgiliau i allu'i gyflawni; bu'n rhaid i mi fuddsoddi amser ac adnoddau helaeth yn eu hyfforddi.

Mae'r holl staff yn dysgu o bell ac, felly, mae llai o gyfle am rolau strategol cydweithredol a rhannu cyfrifoldebau.

1.10. Hunanhyfforddiant, dysgu wrth y gwaith (15 o sylwadau)

- Ychydig sylwadau am sut y bu'n rhaid i staff ddysgu wrth y gwaith oherwydd diffyg hyfforddiant. Ymgymryd â hyfforddiant ar ôl oriau gweithio oherwydd y cynnydd mewn baich gwaith.

Enghreifftiau

Dysgu wrth y gwaith – diffyg hyfforddiant. Ennyn diddordeb disgyblion a staff a'u symbylu.

Dod o hyd i ddysgu ar-lein i staff ei gwblhau.

Gweithredu hyfforddiant staff, gan sicrhau bod staff a disgyblion yn gallu cael at y dechnoleg gywir.

Hunanhyfforddiant ar TGCh a chynllunio a goruchwyllo dysgu gartref.

Mae cyfleoedd hyfforddi a chyfarfodydd yn digwydd gyda'r nos.

Dadansoddiad o sylwadau ynghylch awgrymiadau ymarferol ar sut y gelli'r gwella baich gwaith

Sylwch, oherwydd dim ond nifer bach o awgrymiadau ymarferol ar gyfer gwella a ddarparwyd o fewn y cwestiwn hwn, ni fu'n bosibl sefydlu themâu amlwg. O'r awgrymiadau a ddarparwyd, roedd y sylwadau'n cynnwys:

1.11. Hyfforddiant pellach i staff a myfyrwyr ar blatfformau ar-lein (4 o sylwadau)

Enghreifftiau

Hyfforddiant staff ar adnoddau ac addysgeg ar gyfer dysgu ar-lein.

Darparu cymorth a hyfforddiant i staff nad oeddent yn hyderus i ddefnyddio teams.

Gwell darpariaeth hyfforddiant gan y llywodraeth.

1.1. Lleihau'r pwysau a'r disgwyliadau yn ystod pandemig COVID-19 (2 o sylwadau)

Enghreifftiau

Llai o bwysau i ddarparu cymaint o ddysgu gartref.

Rheoli safonau mewn dysgu o bell mewn ffordd wahanol a rheoli ymgysylltiad teuluoedd a'u pryderon ynghylch Covid.

1.2. Staff ychwanegol ar gyfer tasgau gweinyddol (1 sylw)

Enghreifftiau

Staff ychwanegol i ymgymryd â thasgau gweinyddol.

1.3. Mwy o atebolrwydd i deuluoedd ymgysylltu â dysgu gartref; (1 sylw)

Enghreifftiau

Byddai mwy o atebolrwydd i deuluoedd ymgysylltu â dysgu gartref yn tynnu pwysau'r angen am wirio, annog, cymell, cefnogi, cyfeirio a rheoli teuluoedd. Byddai'n dda pe bai rhywle i droi a fyddai'n gwneud yn siŵr bod yn rhaid i bob disgybl ymgysylltu, oherwydd bod hyn yn cymryd llawer o amser.

2. Dysgu Proffesiynol

Themâu cyffredinol o sylwadau testun agored dysgu proffesiynol

- y cwricwlwm newydd
- arweinyddiaeth, rheolaeth a mentora
- iechyd meddwl a lles
- gwella sgiliau Cymraeg
- ymchwil gweithredol
- anghenion dysgu ychwanegol

Cyfanswm yr ymatebion: 758

Cyfanswm yr ymatebion testun agored: 369

Mewn ymateb i:

15. Ym mha feysydd y byddech yn croesawu datblygiad pellach i'ch helpu i fod yn weithiwr addysg proffesiynol mwy effeithiol? (rhestrwch hyd at dri maes)

Dadansoddiad o sylwadau sy'n ymwneud â'r prif themâu dysgu proffesiynol

2.1 Y cwricwlwm newydd (141 o sylwadau)

- Y sylw mwyaf poblogaidd yw'r cwricwlwm newydd. Dywed llawer nad ydynt yn barod ac yr hoffent hyfforddiant pellach i ddod yn barod ar gyfer y cwricwlwm newydd. Mae sylwadau hefyd yn awgrymu cyngor ac arweiniad pellach ar feini prawf y cwricwlwm newydd.

Enghreifftiau

Cyngor cyson, clir ar asesu'r Cwricwlwm i Gymru.

Cymorth ar gyfer y Cwricwlwm newydd.

Mae'r cwricwlwm newydd bellach mor anferth ac eang, does neb yn barod i ddweud, dyma sut mae'n cael ei wneud ac mae hyn yn arfer da.

Eglurhad ynghylch sut i gyflwyno'r cwricwlwm newydd

2.2 Arweinyddiaeth, rheolaeth a mentora (89 o sylwadau)

- Sylw ynghylch thema mwy o hyfforddiant rheoli ac arwain. Awgrymiadau am hyfforddiant a rhaglenni arwain i athrawon ddatblygu'u sgiliau rheoli/arwain ymhellach.

Enghreifftiau

Byddwn yn croesawu mwy o hyfforddiant proffesiynol ar arweinyddiaeth a rheolaeth.....Mae'n ymddangos bod mwyafrif y cymorth a'r arweiniad yn cael ei gyfeirio at athrawon newydd gymhwyso neu ddarpar benaethiaid ac oherwydd bod pethau'n datblygu ac yn newid yn gyflym ym myd addysg, teimlaf fod angen datblygiad proffesiynol cyfredol, o ansawdd uchel, ar bob arweinydd.

Arweinyddiaeth bellach a chwrs Cymraeg.

Datblygu arweinyddiaeth ymhlith staff.

2.3 Iechyd meddwl a lles (28 o sylwadau)

- Sylwadau'n sôn bod angen cefnogi staff a myfyrwyr â phroblemau iechyd meddwl a lles. Byddent yn croesawu mwy o hyfforddiant er mwyn datblygu ymhellach yn y maes hwn i fynd i'r afael â'r broblem gynyddol.

Enghreifftiau

Cefnogi iechyd meddwl staff ac agweddau Adnoddau Dynol.

Iechyd a Lles disgyblion – Llythrennedd Emosiynol, Iechyd Meddwl.

Cymorth i ddysgwyr sy'n cael argyfwng iechyd meddwl.

2.4 Gwella sgiliau Cymraeg (23 o sylwadau)

- Llawer o sylwadau'n dweud yr hoffent ddysgu Cymraeg neu wella'u sgiliau Cymraeg.

Enghreifftiau

Hyfforddiant i ddatblygu sgiliau Cymraeg, datblygu sgiliau ymchwil.

Arweinyddiaeth bellach a chwrs Cymraeg.

Cymraeg i athrawon uwchradd mewn ysgolion cyfrwng Saesneg.

2.5 Ymchwil gweithredol (21 o sylwadau)

- Dywed arweinwyr yr hoffent ddatblygu'u gallu ymchwil gweithredol ymhellach.

Enghreifftiau

Rheoli ymchwil gweithredol yn strategol.

Ymchwil gweithredol.

Sut i greu amser ar gyfer ymchwil ac ymholi proffesiynol pan nad oes dim wedi'i dynnu o gwricwlwm yr ysgol, yn wir, mae rhagor wedi'i ychwanegu ato.

2.6 Anghenion dysgu ychwanegol (ADY) (13 o sylwadau)

- Cyllideb fwy o faint ar gyfer ADY, yn ôl arweinwyr. Hefyd, byddai cymorth pellach yn fuddiol.

Enghreifftiau

Mwy o arian yn y gyllideb i gefnogi ein disgyblion ADY a'n holl ddisgyblion ar eu taith ddysgu.

Cymorth pellach ag ADY – yn arbennig, cydweithio â phobl sefydliad gwahanol yn effeithiol.

Parhau â chysiau ADY.